# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com

£1

Gorffennaf 2025 – Cyfrol 10 – Rhifyn 10

## Ysgol Bryn Clwyd yn codi gwên



Cymerodd disgyblion Ysgol Bryn Clwyd ran mewn prosiect hyfryd iawn ym mis Mehefin. Yn dilyn ymweliad â Firth Flock Flowers yn Llanfair DC i weld sut brofiad yw rhedeg fferm flodau, daeth Ellen o'r fferm i'r ysgol i ddangos i'r disgyblion beth i'w wneud ar ôl torri'r blodau. Dysgwyd enwau'r blodau, ac yna dysgodd y plant sut i wneud a chlymu tusw, gan wneud sawl un hyfryd.

Fel diweddglo i'w her caredigrwydd 24 diwrnod, roedd Dosbarth Iau'n dymuno cyflwyno anrheg annisgwyl i gartrefi yn y pentref a gofynnwyd am enwebiadau trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Dosbarthwyd eu blodau, neu siocledi neu gardiau i staff yr ysgol a phentrefwyr, a chardiau caredigrwydd hefyd.



Mae'r sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn adlewyrchu barn trigolion y pentref am yr ysgol: 'Am brosiect cymunedol anhygoel!', 'Mae hyn yn wych ar bob lefel', 'Gweithred mor hyfryd', 'Gobeithio bod pob un ohonoch wedi mwynhau eich taith o amgylch y pentref gan wneud i ni i gyd wenu.'

Felly, gan bawb a gafodd anrhegion, diolch yn fawr iawn i holl staff yr ysgol a Dosbarth Iau a dymuniadau gorau am wythnosau olaf y flwyddyn ysgol.

Cynhelir ffair yr haf yn yr ysgol ddydd Gwener, 4 Gorffennaf am 5.30pm – croeso i bawb!







# Pytiau newyddion

**Cydymdeimlwn** â theulu Hughie Plumb, a fu farw ddiwedd mis Mehefin.

**Llongyfarchiadau i** … Elis Morris a Bethan Wright ar enedigaeth Lili-wen Louise, wyres gyntaf i Elfor a Mel Morris;

… John a Gaynor Barnett ar ddathlu eu pen blwydd priodas arian yn ddiweddar;

… Sharleen Spiteri, White House, ar ennill doethuriaeth er anrhydedd o Brifysgol Glasgow.


… Heidi Palin gynt o Millstream Cottage, Pentrefelin, ar ennill y teitl *Lady Amateur Jump Jockey*, 2024–25. Mae Heidi'n cael ei chyflogi gan Dan Skelton Racing yn Alcester, Swydd Warwick.

**Croeso** i'r Barchedig Ganon Juliet Fraser, i'r Rheithordy. Bydd yn gweithredu fel offeiriad heb gyflog yn Ardal Genhadaeth Dinbych.

**Dymuniadau da** i Tony ac Ingrid Colclough yn eu cartref newydd yn Llanrhaeadr.




*Ychydig o'r newyddau lleol sydd ar werth yn y siop*



Y mis diwetha, buon ni'n llongyfarch Mark ac Edith Owen ar eu priodas – dyma lun o'r cwpwl hapus. Rydyn ni wedi cael hanes alpacas Mark ac Edith yn y gorffennol – edrychwn ymlaen at yr un nesa!

## Siop Llandyrnog

**Oriau agor y siop**

| | |
|---|---|
| Llun | 8am – 5.30pm |
| Mawrth | 8am – 5.30pm |
| Mercher | 8am – 5.30pm |
| Iau | 8am – 5.30pm |
| Gwener | 8am – 5.30pm |
| Sadwrn | 8am – 4pm |

**(sylwch na fydd y siop ar agor ar ddydd Sul)**

07301 573362
01745 422099

info@llandyrnogshop.com

ShopLlandyrnog

Llandyrnogshop.com

**Oriau agor y swyddfa bost**

Llun – Gwener 9am – 5.30pm
Sadwrn 9am – 12.30pm

Gallwch nôl parseli rydych wedi'u harchebu ar-lein o'r Swyddfa Bost.
Hefyd, postiwch bob peth wrth y cownter, gan fod incwm yn deillio o hyn.

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Maw | 1af | Grŵp cyfeillgarwch, 7–9pm |
| Mer | 2il | Cyfarfod pwyllgor y *Llais*, 7pm |
| Gwe | 4ydd | Grŵp cwiltio, 1.30–3.30pm |
| Llun | 7fed | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | 8fed | Clwb Llyfrau, 10am |
| Mer | 9fed | Undeb y Mamau, 2pm |
| Llun | 14eg | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | 15fed | Cyfarfod y Cyngor Cymuned, 7pm |
| Mer | 16eg | Tuesday Club |
| Iau | 17eg | Gweithdy crefftau, 7–9pm |
| Sad | 19eg | Gweithdy crefftau, 10–canol dydd |
| Llun | 21ain | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | 22ain | Clwb Llyfrau, 10am |
| Mer | 23ain | Cyfarfod Sirol y Gild Trefoil |
| Llun | 28ain | Grŵp gweu a chrosio, 10am |

# Eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| 6ed | 11.15 | Boreol Weddi |
| 13eg | 11.15 | Boreol Weddi |
| | 15.30 | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| 20ain | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| 27ain | 11.15 | Cymun Bendigaid |

# Capel y Dyffryn

| | | |
|---|---|---|
| 06/07 | 10.00 | Oedfa’r Fro (**Trefnant**) |
| 13/07 | 9.45 | Trefniant lleol |
| 20/07 | 11.00 | Parch Huw Dylan |
| 27/06 | 9.45 | Parch Andras Iago |

Diolch o galon i bawb a gefnogodd y bore coffi tuag at y capel – codwyd £392.70 – gwych!

**Y Lleng Frenhinol Brydeinig**

**Adran y Merched, Cangen Dinbych**

**BORE COFFI**

**Dydd Mercher 9 Gorffennaf,**
**10am– ganol dydd yng Nglan-y-Wern,**
**diolch i Mr and Mrs Mark Griffith.**

**Mynediad drwy gyfraniad**

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Mer 2il | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad 5ed | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Llun 7fed | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 8fed | Pwyllgor y Sioe Flodau | 7–8pm |
| Mer 9fed | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Iau 10fed | Drama’r ysgol | 5–8pm |
| Sul 13eg | Llan Llanast | 3.30–5pm |
| Llun 14eg | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Mer 16eg | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Iau 17eg | Côr | 7.30–9.30pm |
| Llun 21ain | Brownies | 5.30–7pm |
| Mer 23ain | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Iau 24ain | Côr | 7.30–9.30pm |
| Llun 28ain | Côr | 7.30–9.30pm |
| Iau 31ain | Côr | 7.30–9.30pm |

I hurio **Neuadd y Pentre,** cysylltwch ag Ivan Butler: 07799570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com

I hurio’r **Ystafelloedd Coco,** anfonwch e-bost at Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk




**Piano Spencer**

**Cysylltwch â: 07769 658078**

# O'r pridd i fyny

**Gair am bryfed genwair (a pham mae pridd yn bwysig)**

Mae llawer ohonoch chi'n fy adnabod fel eich cynghorydd sir, ond dwi hefyd yn gweithio ers dros 40 mlynedd fel agronomegydd – yn cynghori ffermwyr ar dyfu cnydau iach a rheoli tir yn gynaliadwy. Mae agronomeg yn ymwneud â mwy na dim ond yr hyn sydd i'w weld uwchben y ddaear. Mae rhywfaint o'r gwaith pwysicaf ar fferm yn digwydd o dan y ddaear – gan bryfed genwair.

Wrth i bryfed genwair dyllu, maen nhw'n helpu i awyru'r pridd ac yn chwalu pridd sydd wedi'i gywasgu, felly mae'n haws i bridd amsugno glaw. Maen nhw'n bwyta deunydd planhigion sy'n pydru, gan ei ailgylchu'n faetholion gwerthfawr i gnydau.

Ond mae rhan arall o'r stori sy'n dod yn bwysicach nag erioed: carbon pridd. Mae pridd iach yn storfa naturiol ar gyfer carbon, gan ei gloi oddi wrth yr atmosffer ar ffurf deunydd organig. Bob tro rydym yn gwarchod ein priddoedd rhag erydu, yn peidio â gor-drin, neu'n cynnal bywyd fel pryfed genwair, rydyn ni hefyd yn helpu i gadw carbon yn y ddaear. Yn ogystal â bod o fudd i gynhyrchu cnydau, mae'n helpu i ymladd newid hinsawdd.

Mae cadw carbon yn ein priddoedd yn gwneud y tir yn fwy cynhyrchiol, yn well am wrthsefyll sychder, ac yn fwy cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Fel agronomegydd, pan fyddaf i'n gweld pridd yn llawn pryfed genwair ac yn gyfoethog mewn deunydd organig, rwy'n gwybod bod fferm yn meithrin gwydnwch. Fel cynghorydd, rwy'n credu y gall cymunedau fel ein cymuned ni, sydd wedi'i gwreiddio yn y tir, arwain y ffordd wrth ofalu am yr hyn sydd wedi'i ymddiried i'n gofal.

Felly'r tro nesaf y byddwch chi'n cloddio'r ardd ac yn gweld pryfed genwair, neu'n clywed sôn am 'iechyd pridd', cofiwch: mae'r gwaith tawel hwn o dan ein traed yn bwysicach nag erioed.

*Cyngh. Merfyn Parry*

# Diwrnod elusennol Beti Bach



Cafodd y nifer fawr o bobl a ddaeth i Stablau Tyrnog ddiwrnod hwyliog iawn, y rhan fwyaf ohonyn nhw â chwmni ffrindiau pedair coes annwyl. Y sioe gŵn oedd uchafbwynt y digwyddiad.

Cafodd ymwelwyr gyfle i weld y cyfleusterau a gynigir yn Beti Bach, gan gynnwys y pwll peli a'r man chwarae. Roedd y stondinau'n cynnwys brownis blasus, planhigion, peintio wynebau, castell neidio, fan hufen iâ, te a choffi, a fy ffefryn i – *Doughson's Handmade Pizzas*. Roedd y tywydd yn berffaith, yn gynnes ond nid yn rhy boeth i'r rhai â chotiau ffwr.

Gwnaethpwyd y digwyddiad yn bosibl diolch i waith caled criw Beti Bach a haelioni llawer o fusnesau lleol, yn enwedig gyda gwobrau raffl. At ei gilydd, codwyd dros £1000 ar gyfer yr elusen achub cŵn Shad's Legacy, sy'n rhoi cartref i gŵn, yn enwedig bleiddgwn, hysgwn a chŵn Alaska.

Roedd fy nghi bach i wedi blino'n lân pan gyrhaeddon ni adref. Llongyfarchiadau i Catrin Davies a holl dîm Beti Bach.

*Louise Eccleston*

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies, Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams.

***Anfonwch erthyglau neu newyddion at llandyrnognews@gmail.com***

# Y Sioe Flodau a Chynnyrch



Mae llai na dau fis i fynd tan ddydd Llun, 25 Awst. Os ydych chi'n tyfu llysiau hyfryd, ag awydd trefnu blodau bendigedig, neu os oes gennych chi lun perffaith o anifail anwes, bydd y rhaglen yn dod cyn bo hir i'ch paratoi chi i gystadlu.

Gofynnwn yn garedig i enillwyr anfon eu tlysau, wedi'u glanhau a'u sgleinio, yn ôl i Roger Warner, ysgrifennydd y sioe, Cross Keys, Llandyrnog, erbyn 5 Awst. Mae angen stiwardiaid hefyd – beth amdanoch chi?

Newyddion da – bydd adran grefftau yn y sioe eto eleni, a saith bwrdd i'w llogi. Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, anfonwch neges at Helen Murphy ar Facebook, ffoniwch 07469 926979 neu ewch i weld Angie yn Tŷ Ceffyl Bach.

# Y Grŵp Cyfeillgarwch



Ymweliad â gerddi Coed Coch, Dolwen ger Bae Colwyn gafodd yr aelodau ym mis Mehefin. Yn ein cyfarfod nos Fawrth, 1 Gorffennaf, byddwn yn cael sgwrs am erddi blodau gwyllt. Croeso cynnes i bawb!

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345


APWYNTIADAU'N HANFODOL
APPOINTMENTS ESSENTIAL

Sefydlwyd | Est.1992
rogersjonesco
Arwerthwyr a Phriswyr | Auctioneers and Valuers

**Diwrnod Prisio Rhad ac AM DDIM**
**FREE Antiques Valuation Day**

**01/08/2025**
**10yb-3yp | 10am-3pm**

**Mae'r Arwerthwr Richard Hughes yn eich gwahodd i ddod ag eitemau o ddiddordeb i'w prisio, AM DDIM.**

Auctioneer Richard Hughes invites you to bring items of interest for a **FREE**, no-obligation auction valuation.



GWERTHWYD YN DDIWEDDAR
RECENTLY SOLD
**£1,000**

**Llandyrnog Village Hall**
Llandyrnog, Denbigh, LL16 4HG

Ffôn / Tel: 01492 532176 / 07593 181017 | www.rogersjones.co.uk | info@rogersjones.co.uk

# Taith dractorau Dyffryn Clwyd

Meddwl y buaswn yn rhoi diweddariad i chi ar ôl y bore coffi ym mis Mai a'n taith dractorau, ddydd Sul, 1 Mehefin ac i ddiolch o galon i chi gyd am eich cefnogaeth unwaith eto.

Un o'r ddwy elusen ddaru ni benderfynu eu cefnogi eleni oedd Mind Dyffryn Clwyd, i'w galluogi i barhau efo ymestyn eu gwasanaeth i'r cymunedau lleol – gwasanaeth teithiol i'r archfarchnad ac i'r farchnad da byw lle gall rhywun alw mewn am baned a chael cyngor ar ba asiantaeth all eu helpu. Mae costau byw, ansicrwydd gwaith, ac unigrwydd mewn ardaloedd gwledig yn rhoi straen aruthrol ar unigolion a dyma lle mae Mind yn gallu bod o gymorth.

Yr elusen arall ddaru ni ddewis oedd RABI, sy'n cynnig cefnogaeth emosiynol, ariannol a help llaw ymarferol i'r rheini sy'n byw ar y tir, yn ffermwyr neu'n weithwyr fferm. Efo costau'n codi, bygythiad o gig rhatach yn cael ei fewnforio, llai o ddibyniaeth ar gymorthdaliadau ac wrth gwrs y dreth etifeddiaeth, credwch chi fi, mae yna gwmwl du iawn ar y gorwel.

Tydi popeth ddim fel mae'n ymddangos o fewn y diwydiant amaeth ar hyn o bryd. Mae 'Ydi'r hwch am fynd drwy'r siop tra mae'r fferm yn fy ngofal i' yn croesi meddwl llawer i ffermwr ifanc. Efallai fod y fferm wedi bod yn y teulu ers sawl cenhedlaeth, mae'n andros o gyfrifoldeb a phoen meddwl. Mae llawer yn dweud wrth y plant, 'Peidiwch â thrafferthu – saith diwrnod yr wythnos, deuddeg awr y dydd. Ewch i gael gyrfa â phensiwn a gwyliau!'

Mi ddaru'r bore coffi ei hun godi £580, sy'n swm anhygoel. Daeth tua 105 o dractorau a



*Seibiant hanner ffordd yn Eryrys*




*£3135 oedd y cyfanswm a godwyd – diolch o galon i bawb a gyfrannodd*

# Taith dractorau: parhad

Land Rovers i gofrestru ar y daith a diolch i bawb am roi eu ffydd ynom fel trefnwyr.

Mae'n dipyn o gyfrifoldeb – asesu'r risg a'i rheoli, rhoi gwybod i'r gwasanaethau brys, trafod insiwrans, trefnu tŷ bach ar gyfer y seibiant hanner ffordd, ac wrth gwrs gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu bwydo cyn cychwyn. Diolch enfawr i Sara Bocs Bwyd am droi allan yn gynnar ar fore Sul i wneud coffi a brechdanau bacwn i bawb!

Ar ôl y sgwrs iechyd a diogelwch – does fawr yn gwrando arni ond mae'n rhaid i ni ei gwneud – mi aethom tua Hirwaen, drwy Langynhafal, heibio Glyn Arthur, a chymryd y lôn tu cefn i Foel Llys y Coed nes i ni gyrraedd Cilcain.

Roeddwn i dipyn ar y blaen yn sicrhau bod y lonydd yn glir, heb rwystrau na cherbydau brys eisiau mynediad. Mi wnes amser i ffonio Phil oedd ar ddiwedd y gynffon – tra oeddwn i bron yng Nghilcain, roedd o ar waelod Moel Arthur. Roedd y rhes cerbydau bron ddwy filltir o hyd ond mae hi'n eitha tawel ar ddydd Sul a chawsom groeso mawr gan drigolion Pantymwyn, Y Waun – Gwernaffield, a Cadole.

Mi wnaethom gael sbel amser cinio ar dir ffrind yn Eryrys. 'Bryn, chydig o dractors ddaru ti ddweud', meddai yn gellweirus, tra oedd un ar ôl y llall yn dod dros y gorwel.

Ar ôl rhyw awr o roi'r byd yn ei le, unwaith eto i ffwrdd a ni am Lanarmon, i lawr y Silff ac yn ôl i Ruthun.

Ddim sioe na chystadleuaeth ydi hon ond cyfle i bawb gael sgwrs. Argol, roedd pawb wedi mwynhau – yn tydi cefn gwlad sir y Fflint yn hardd? Does dim bwriad i'w gwneud yn gystadleuaeth chwaith, er bod rhywun wedi sôn efallai dylsen ni gael cystadleuaeth y corn sy'n gwneud fwyaf o sŵn. Dwi ddim yn siŵr am hynna – am hanner awr wedi wyth ar fore Sul?

Daeth pawb yn ôl yn ddiogel – dyna oedd rhyddhad!

*Bryn Davies*

# Llan Llanast

Yn ein sesiwn mis Mehefin gwnaethom ni ddathlu'r Pentecost, yr adeg pan anfonodd Duw yr Ysbryd Glân atom ni i fod gyda ni a'n cysuro, ar ôl i'r Iesu esgyn i'r nefoedd. Mae'r Beibl yn dweud wrthym fod yr Ysbryd wedi dod atom fel gwynt nerthol a thân, ac felly gwnaethom ni lawer iawn o weithgareddau ar y thema hon.



Gwnaethom ni felin wynt anferth, barcutiaid a baneri i gynrychioli gwynt, a chacennau wedi eu haddurno â mefus i edrych fel fflamau o dân, a gwneud coronau gyda fflamau arnyn nhw. Mae'r Pentecost yn cael ei adnabod fel pen blwydd yr eglwys, ac felly, cawsom ni barti, ac roedd pawb, yn enwedig yr oedolion, yn mwynhau'r jeli! Roedd gennym ni faneri parti wnaeth tipyn o lanast – wel, Llan Llanast ydi o wedi'r cwbl! Pam na ddowch chi ag oedolyn a mwynhau'r hwyl ar 13 Gorffennaf am 3.30 pm yn y Neuadd?

**Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd**
becky.gittins.mp@parliament.co.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01352 871130

# Gefeillio Dinbych a Biebertal, yr Almaen

Fel aelodau o'r gymdeithas hon ers talwm, roedd yn bleser gennym groesawu ein ffrindiau o'r almaen unwaith eto i Ddyffryn Clwyd ddechrau mis Mai. Mae Biebertal yn dref fach, fwy neu lai yng nghanol yr Almaen gyda phoblogaeth debyg iawn i Ddinbych. Fel Dyffryn Clwyd, mae'n ymfalchïo mewn golygfeydd ysblennydd, gyda choetir a ffermydd bach â chaeau agored heb wrychoedd. Erbyn hyn rydym wedi sefydlu perthynas agos â'n ffrindiau yn Biebertal, ac roedd hi'n ffodus iawn ein bod wedi cael ein bendithio ag wythnos o dywydd cynnes iawn ar gyfer eu hymweliad. Roedden nhw felly yn gallu mwynhau'r Dyffryn ar ei orau – ond braidd yn sych.

Er iddyn nhw fwynhau eu teithiau i Landudno a Lerpwl, roedd hi'n amlwg bod ymweliadau â lleoliadau yn Ninbych a'r cyffiniau yn parhau i gael eu gwerthfawrogi'n fawr. Penderfynodd yr aelodau lleol ar raglen o ddiddordebau cyffredin gan ymweld â Gwinllan y Dyffryn a bryngaer Penycloddiau.

Ond beth oedd gan yr atyniadau lleol hyn yn gyffredin â'n gwesteion o'r Almaen? Gadewch i ni ddechrau gyda gwin Almaenig. Pan oedd Rhys a Gwen yn y broses o gynllunio eu gwinllan, cawson nhw gyngor gan arbenigwyr mewn tyfu gwinwydd, a'r cyngor hwnnw oedd plannu gwinwydd Almaenig. Fel arfer, mae'r rhain yn ffynnu mewn hinsoddau oerach ac yn gallu goroesi gaeafau oer, felly mae tywydd y dyffryn yn ddelfrydol ar gyfer y mathau hyn o winwydd.

Roedd ein hymwelwyr wrth eu bodd yn clywed bod y winllan yn Dregoch Isaf wedi'i phlannu gan eu cydwladwyr a deithiodd gyda thractor JCB Fastrac i blannu'r pedair erw i gyd mewn llai nag un diwrnod. Trwy ddefnyddio monitro GPS, roedden nhw'n gallu sicrhau bod y rhesi i gyd yn berffaith.

Cafwyd amser pleserus iawn yn blasu'r cynnyrch ac roedd y gwesteion wedi'u plesio'n fawr.

Aethon ni hefyd i nodwedd arall sydd gan Bierbetal a Dinbych yn gyffredin – bryngaerau cyfagos. Rai blynyddoedd yn ôl, buon ni i fyny bryngaer ychydig filltiroedd uwchben Biebertal. Mae llawer o goed yn tyfu ar y safle ond roedd y nodweddion hanesyddol yn hollol weladwy. Erbyn hyn mae'n safle picnic poblogaidd gyda golygfeydd ysblennydd ar draws dyffrynnoedd yr Almaen. Yn ystod yr Oes Haearn (tua 1200CC–550CC) credir bod y gaer hon yn rheoli ardal eang iawn o bentrefi bach. Maen nhw'n credu'n gryf bod ein



*Yr ymwelwyr o Biebertal yng Ngwinllan y Dyffryn*

# Gefeillio: parhad

hynafiaid – y Celtiaid cynnar – wedi byw ynddyn nhw cyn symud i'r gorllewin!

Fodd bynnag, llwyddon ni i ragori ar ein gwesteion Almaenig drwy ddangos iddyn nhw ein caer llawer hŷn o'r Oes Efydd – bryngaer Penycloddiau. Trefnwyd y diwrnod gan ein heiciwr dewr Roger Mullock a honnodd ei fod yn gyfrifol ond ddim yn rheoli! Roedd Roger wedi cynllunio taith gerdded 6 milltir i Benycloddiau ac o'i hamgylch. Roedd hyn yn her rhy bell i rai o'n gwesteion ac roedd rhaid eu hachub mewn car cyn cwblhau'r daith gerdded. Er gwaethaf eu blinder, cawson nhw eu plesio gan dawelwch a llonydd y safle a'r golygfeydd trawiadol o Lerpwl (lle roedden nhw newydd fod) i'r dwyrain ac Eryri i'r gorllewin gyda chân y gog yn gerddoriaeth gefndir.

Esboniwyd bod Dr Rachel Pope o Brifysgol Lerpwl, dros gyfnod o saith mlynedd, wedi cynnal prosiect ymchwil cloddio dros yr Haf. Roedd hwn yn cynnwys tua saith deg o fyfyrwyr o bob rhan o'r byd ar adegau, yn cloddio'r safle'n ofalus. Daeth y myfyrwyr ar draws dyddodion carbon wedi'u claddu yn y rhagfuriau. Cododd pobl Llandyrnog arian i dalu am ei ddyddio – awgrymodd hyn fod yr adeiladu wedi digwydd cyn yr Oes Efydd.

Yn ôl pob golwg, dangosodd safleoedd yr Almaen a Phenycloddiau enghreifftiau o sylfeini carreg i gynnal fframwaith pren y tai crwn a oedd yn gyffredin yn yr Oes Efydd a'r Oes Haearn.

Roedden ni hefyd yn gallu dangos rhai o leoliadau tebygol y tai crwn ar Benycloddiau lle mae'r Brifysgol yn gobeithio cynnal rhagor o ymchwil ryw ddydd.

Wrth gymharu'r safleoedd yn yr Almaen â'r rhai yng Nghymru, mae'n debygol nad oedd dulliau adeiladu'r tai crwn wedi newid yn sylweddol dros lawer o ganrifoedd.

Daeth y diwrnod i ben gyda noson gymdeithasol hwyliog a rhost mochyn yng Nghlwb Rygbi Dinbych.


*Rod a Margaret Williams*
*Mary Mars Lloyd*

# Gild Trefoil



Fiona McPherson, sydd â busnes pobi cacennau o dan yr enw *For the love of cake* a ddaeth i'n diddanu yng nghyfarfod mis Mehefin. Soniodd am ei gwaith a dangosodd esiamplau i ni. Mae hi'n gwneud cacennau sydd wedi'u harchebu, ac ar hyn o bryd mae hi wrthi'n creu gweithdy pwrpasol. Roedd ei chacennau a ddaeth hi i ni eu profi yn flasus iawn.

Ruth enillodd y raffl. Byddwn yn ymweld â gardd Tony Burrows fis nesa.



# Hanesion Hazel



Pa un ai eu hoffi neu eu casáu, eu galw'n chwyn annymunol neu'n blanhigyn defnyddiol wrth goginio; mae pawb yn gwybod sut mae dant y llew yn edrych, ond ydych chi'n gwybod yn iawn be ydi dant y llew. Maen nhw'n deillio o grŵp o flodau rhywogaethol a elwir yn Taracsacwm, ac yn frodorol yn Ewrasia a Gogledd America. Maen nhw i'w gweld mewn unrhyw le heulog yn ein gerddi a'n hardaloedd gwledig, yn tyfu rhwng palmentydd, ar eich patio, yn eich lawntiau destlus. Yn wir, mewn unrhyw grac neu hollt yn y ddaear. Maen nhw'n feistri ar oroesi, ac yn medru gwreiddio mewn mannau lle na fyddai unrhyw beth arall yn medru goroesi, ac yn wir yn medru gwthio fyny drwy darmac neu goncrit. Dyma'r blodau melyn, siriol rydym yn ei weld yn ddyddiol, sy'n troi'n strwythur cymhleth siâp 'cloc' perffaith, a tua 54–172 o hadau ar ben pob blodyn. Yn wir, gall pob planhigyn gynhyrchu hyd at 20,000 o hadau.


Gall nifer o anifeiliaid fwyta dant y llew, ac mae fy ieir i wrth eu bodd efo planhigyn newydd ei dorri, yn pigo'r blodau melyn a'r blagur cyn bod yr hadau'n dod. Mae'r dail, y blodau a'r gwreiddiau'n fwytadwy hefyd. Maen nhw'n ffynhonnell dda o fitaminau a mwynau, a gellir eu defnyddio mewn salad, seigiau, te a gwinoedd. Maen nhw'n cynnwys fitaminau A, C a K, asid ffolig, calsiwm a photasiwm. Mae gan de dant y llew flas ysgafn – heb gaffein, wrth gwrs, ac mae Fitamin C yn gallu helpu i gynnal y system imiwnedd. Gall fod yn ddiwretig hefyd.

Mae dant y llew'n llesol i fywyd gwyllt hefyd, gan eu bod yn ffynhonnell fwyd i bryfed ac adar. Maen nhw ymhlith y cyntaf i flodeuo yn gynnar yn y gwanwyn, pan fydd planhigion eraill yn dal i gysgu, ac yn darparu neithdar ar gyfer gwenyn a pheillwyr. Dwi'n gwybod ein bod ni gyd yn casáu'r gwreiddiau wrth godi'r planhigion, ond mae'r gwreiddiau hirion hyn yn medru gwella ansawdd iechyd y pridd drwy ei lacio, a helpu i atal erydiad. Mae llawer o bobl yn meddwl bod dant y llaw yn lladd y lawnt, ond yn hytrach maen nhw'n gwrteithio'r glaswellt. Dwi'n gwybod fod rhai pobl yn hoffi lawnt berffaith, a bod y bomiau melyn yma'n difetha'r gwyrddni perffaith, ond mewn glaswellt hir gyda phlanhigyn cyffredin bach arall – llygad y dydd, maen nhw'n edych yn hyfryd!

Yn olaf, mewn rhai cylchoedd, ystyrir mai dant y llew yw'r unig flodyn sy'n cynrychioli'r tri chorff wybrennol – yr haul, y lleuad a'r sêr. Y blodyn melyn llachar ydi'r haul, y belen o hadau'r cloc chwythu hardd ydi'r lleuad, a phan mae'r awel yn chwalu'r hadau, dyma'r sêr wedi'u gwasgaru yn y gofod.

Felly mae mwy o bethe da yn perthyn i'r hen ddant y llew druan nag a feddyliwch chi; y tro nesa welwch chi'r 'chwyn' bychan melyn, os gwelwch yn dda, ystyriwch yn ddwys cyn defnyddio chwynladdwr neu ei godi o'i wraidd!

**Hazel**


Am gyngor ar sut i sicrhau'r incwm gorau, cyngor ar fudd-daliadau lles, dyled, ynni'r cartref, cyfraith teulu, a thai. Bydd y rhan fwyaf o'r cyngor ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

**Bob dydd Gwener o 10am tan ganol dydd yn Siop Gymunedol Llandyrnog**

Am ragor o wybodaeth,
cysylltwch ag Eleri Jones ar 01824 719623
neu ar e-bost: advice@dcab.co.uk

# Undeb y Mamau

Ym mis Mehefin bob blwyddyn, rydym ni'n arfer trefnu ymweliad. Eleni fodd bynnag, taith fer gawsom ni wrth ymweld â Chaffi Cariad, Llanelwy, lle cafwyd te pnawn hyfryd dros ben. Er bod pawb wedi bwyta gormod o lawer, roedd digon o fwyd ar ôl i'w gymryd a'i fwynhau adref.

Ar 9 Gorffennaf byddwn yn dysgu mwy am Oergell Gymunedol Dinbych. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni yn yr Ystafelloedd Coco am 2pm.

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:
Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*
*Neu gadewch neges ar Facebook*


J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK - FARM TYRE SPECIALISTS

BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602


# Gweithdy crefftau

Cafodd Tŷ Ceffyl Bach weithdy llwyddiannus arall yn yr Ystafelloedd Coco y mis diwetha. Gwnaeth y rhai a ddaeth yno fagiau a chardiau hyfryd gan ddefnyddio dull hynafol o argraffu o Japan, *Tatami Zome*. Mae'r dull yma'n lliwio deunyddiau a phapur drwy bwnio blodau i gael lliw naturiol allan ohonyn nhw. Cafodd Carolyn sgarff sidan i argraffu arni fel arbrawf ar gyfer gweithdy yn y dyfodol – roedd hyn yn llwyddiant aruthrol.

Bydd gweithdy'r mis nesa yn gwneud calonnau mosaïg. Archebwch eich lle drwy gysylltu ag Angie yn Nhŷ Ceffyl Bach.





# Newyddion MHC

**Gwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru 2025**
Ym mis Hydref 2024, cafodd Elm yr anrhydedd o gael ei enwebu ar gyfer Gwobr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y categori 'Datblygu ac Ysbrydoli'r Gweithlu'. Mae'r categori hwn yn cydnabod sefydliadau sy'n dangos ymrwymiad cryf i gefnogi, datblygu a grymuso eu staff i ddarparu gofal o safon uchel.

Yn dilyn yr enwebiad, cafodd Elm ei roi ar restr fer a'i wahodd i roi cyflwyniad i banel o chwe beirniad. Yn ystod y cyflwyniad, rhannodd Elm ei hanes o drawsnewid diwylliannol, mentrau datblygu staff, a'r canlyniadau cadarnhaol a gafwyd i weithwyr a'r bobl y maen nhw yn eu cefnogi. Roedd y beirniaid yn amlwg wedi'u plesio, a dewiswyd Elm i symud ymlaen i gam olaf y gwobrau.




Leah a Dan oedd cynrychiolwyr balch Elm yn seremoni'r Gwobrau yng Nghaerdydd ddechrau mis Mai. Dyfarnwyd yr ail safle i Elm a chafodd gydnabyddiaeth 'Canmoliaeth Uchel' gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r wobr hon yn adlewyrchu ymroddiad, arloesedd ac angerdd tîm cyfan Elm.

**Dathlu iaith a gofal: Pwyllgor Cynnig Gweithredol MHC yn dod yn ei flaen yn dda**
Yn MHC, rydym yn falch iawn o'r gwaith mae ein pwyllgor Cynnig Gweithredol yn ei wneud i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i hymgorffori wrth graidd ein gwasanaethau.

Mae'r tri mis diwethaf hyn wedi bod yn enghraifft ddisglair o'u brwdfrydedd a'u hymroddiad, a'r effaith gadarnhaol ar y staff a'r preswylwyr.

Mae'r pwyllgor Cynnig Gweithredol yn cyfarfod yn fisol i adolygu cynnydd ac i ddatblygu dulliau newydd o gefnogi defnyddio'r iaith Gymraeg ar draws MHC. Mae eu hymrwymiad yn glir: mae dewis iaith yn bwysig, ac mae cynnig gwasanaethau yn Gymraeg yn hanfodol i ddarparu gofal personol, gyda pharch.

Un uchafbwynt yw'r cyfleoedd dysgu Cymraeg penodol ar gyfer staff. Yn Elm, lle mae llawer o breswylwyr yn Gymry Cymraeg iaith gyntaf, mae'r staff yn elwa ar wersi wythnosol gyda Tryfan, tiwtor Cymraeg o Goleg Cambria. Mae'r hyfforddiant cyson hwn wedi hybu sgiliau Cymraeg y staff 50 y cant rhwng mis Awst 2024 a mis Chwefror 2025 – gan arwain at gysylltiadau diwylliannol dwfn â'r preswylwyr.

Yn y cyfamser, mae staff Highfield Park yn mynychu gwersi Cymraeg misol, gan gryfhau eu gallu i gyfathrebu a gofalu yn Gymraeg.

Y tu hwnt i'r gwersi iaith, mae'r pwyllgor yn arwain diweddariad cynhwysfawr o holl ddogfennaeth MHC, gan sicrhau bod pob polisi a chysylltiad â phreswylwyr ar gael yn ddwyieithog. Mae ein harweinydd cyfathrebu, Keiran, wedi bod yn gweithio'n galed o fewn y pwyllgor i gynhyrchu fideo ymwybyddiaeth ddiogelu newydd i breswylwyr. Mae'r fideo hwn ar hyn o bryd yn mynd drwy broses lle mae aelodau ein Pwyllgor Cynnig Gweithredol yn ei drosleisio. Bydd rhannu'r cynnyrch gorffenedig â chi yn fuan yn gyffrous iawn.

Mae'r gwaith hwn yn cefnogi ein gweledigaeth o wneud y Gymraeg yn ddewis naturiol i bawb yn MHC, o'r staff i'r preswylwyr.

Roedd cefnogi ymgyrch Comisiynydd y Gymraeg (12–16 Mai) yn foment falch i ni, gan dynnu sylw at y gwahaniaeth gwirioneddol mae Cynnig Gweithredol yn ei wneud. Mae ymdrechion ein tîm sy'n siarad Cymraeg yn sicrhau bod pob preswylydd a theulu yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u clywed, a bod iaith yn wirioneddol berthyn.

# Newyddion MHC: parhad

Yn MHC, nid polisi yn unig yw'r Cynnig Gweithredol, mae'n rhan hanfodol o bwy ydym ni, gan adlewyrchu ein cenhadaeth i ddarparu gofal tosturiol a chynhwysol sy'n parchu iaith a diwylliant pob unigolyn.

Rydym yn dathlu cynnydd y tri mis hwn ac yn edrych ymlaen at barhau i dyfu ein cynnig iaith Gymraeg, gan wneud MHC yn lle gall pawb ffynnu yn yr iaith o'u dewis.

**Dathlu carreg filltir mewn annibyniaeth**




Yr wythnos hon, cymerodd un o'n preswylwyr o Rose House gam sylweddol tuag at fwy o annibyniaeth drwy roi tanwydd yn ei gar ei hun a thalu'n hyderus gyda'i gerdyn banc. Dim ond ychydig iawn o gymorth roedd ei angen arno. Mae hyn yn adlewyrchu ei gynnydd parhaus wrth ddatblygu sgiliau byw bob dydd ac yn tynnu sylw at effaith gadarnhaol cymorth cyson, sy'n canolbwyntio ar y person. Mae hefyd yn enghraifft wych o werth craidd MHC: Buddsoddwch ynoch chi'ch hun.

Mae llwyddiannau bach fel hyn yn cynrychioli cerrig milltir mawr, ac rydym yn falch o ddathlu ei lwyddiant.

**Y trip cyntaf ar fws i un i drigolion Willow**

Yn ddiweddar, aeth preswylydd o Willow ar ei daith fws gyntaf o Barc Highfield i bentref Llandyrnog, cam mawr tuag at feithrin ei hyder a'i annibyniaeth. Arhosodd wrth yr arhosfan bysiau, teithiodd i'r pentref, dewisodd fyrbryd yn y siop a thalodd amdano, gydag ychydig o help.



Ar ôl hynny, mwynhaodd ei fyrbryd yn y parc a threuliodd amser ar y siglen cyn cerdded yn ôl i Willow. Roedd yn amlwg yn hapus iawn yn ystod ei fenter, gan ymateb yn gynnes i'r staff a'r rhai o'i gwmpas.

Yn dilyn y llwyddiant hwn, mae teithiau bws wythnosol bellach yn cael eu cynllunio i'w helpu i fynd o gwmpas yr ardal leol a meithrin rhagor o sgiliau ymwneud â'r gymuned.

# Taith Parch 2025



Daeth y motobeicwyr ar eu Taith Parch flynyddol i Landyrnog ar 9 Mehefin at gofeb y Gwarchodfilwr Peter Edwards a laddwyd mewn brwydr yn Bluff Cove, Ynysoedd Falkland. Mae Taith Parch y Gwarchodfilwyr Cymreig yn ymweld â phob cofeb yng Nghymru a Swydd Henffordd i gofio'r rheini a gollwyd yng ngwrthdaro Ynysoedd Falkland yn 1982.

# Gair gan yr offeiriad

Rydw i wrth fy modd erioed â phys pêr. Eu persawr, eu blodau cain – mae rhywbeth hudolus amdanyn nhw. Ond yr hyn sy'n fy swyno fwyaf yw sut maen nhw'n tyfu. Hyd yn oed pan fyddwch chi'n hau'r hadau ymhell oddi wrth ei gilydd, mae'r planhigion yn ymestyn i fyny tuag at y golau, ac yna tuag at ei gilydd. Mae eu tendriliau'n ymestyn allan fel dwylo, yn dal gafael, yn troelli gyda'i gilydd nes fydd hi ddim yn bosib gwahanu'r planhigion oddi wrth ei gilydd. Erbyn iddyn nhw flodeuo, maen nhw wedi'u cydblethu gymaint, mae'n amhosib dweud ble mae un planhigyn yn gorffen ac un arall yn dechrau. Mae hyd yn oed planhigyn gwan yn dod yn gryf oherwydd bod y gweddill yn ei ddal. Mae'n anodd gwybod pa un sy'n cario a pha un sy'n cael ei gario. Maen nhw'n dod yn enghraifft fyw o gymuned. Nid ar wahân, ond tuag at ei gilydd. Wedi'u plethu. Yn cynnal ei gilydd. Wedi'u dal.



Felly rydyn ni'n byw ein bywydau, fwy neu lai, gan gamu i mewn ac allan o gymunedau sy'n lapio o amgylch ein diwrnodau a'n straeon. Y bws rydyn ni'n teithio arno. Y siopau rydyn ni'n ymweld â nhw. Y gweithleoedd, ysgolion, ysbytai, eglwysi. Y stryd rydyn ni'n byw arni. Dyma'r bobl sy'n plethu i mewn ac allan o'n taith. Mae rhai gyda ni am amser hir, eraill am eiliad yn unig, ond maen nhw i gyd yn bwysig. Ac yn aml, yn ein munudau anoddaf, yn y cyfnodau hynny o salwch, galar, ofn, neu newid, pan fyddwn ar ein mwyaf agored i niwed, dyna pryd mae harddwch cymuned yn ei ddatgelu ei hun. Ystum o garedigrwydd. Rhannu tawelwch. Gadael pryd o fwyd wrth y drws. Neges ar yr union adeg iawn. Gweddi wedi'i sibrwd drosom. Rhywun yn estyn allan, fel tendril yn ein hatgoffa nad oes rhaid i ni sefyll ar ein pennau ein hunain. Dyna beth mae'r pys pêr yn ei wneud. A dyna beth rydym wedi ein galw i'w wneud – i gydblethu cymaint â'n gilydd mewn cariad, mae'n amhosibl gwahanu ein straeon oddi wrth ei gilydd. Ein plethu i mewn i rywbeth cryfach nag y gallen ni fod ar ein pennau ein hunain. Gall pob un ohonom flodeuo yn ein ffordd unigryw ein hunain oherwydd bod trugaredd a chariad yn ein dal ni.

*Y Parch. Sam Quilty*

# Tuesday Club

Cafodd aelodau'r clwb wledd yn llythrennol yng nghyfarfod mis Mehefin. Yr arfer ydy mynd am ginio ganol haf, a'r Cherry Pie, Melin y Wern, oedd dewis yr aelodau eleni. Fel arfer, cawson ni groeso arbennig gan Simon a'i staff ac roedd y bwyd yn hynod o flasus.

Bydd y cyfarfod nesaf yn yr Ystafelloedd Coco yn ôl yr arfer, am 2 o'r gloch ddydd Mercher, 16 Gorffennaf pan fydd Kelly Benton yn sôn am U3A – Prifysgol y Drydedd Oes. Croeso cynnes i bawb.



# Newyddion pêl-droed y pentre




Gwnaeth ein tîm merched ymdrech wych yn nhwrnamaint merched Cynghrair yr Haf. Colli i dîm cryf o Henllan oedd y canlyniad yn y rownd gynderfynol. Diolch yn fawr iawn i'r merched am eu hymdrechion a'u brwdfrydedd drwy gydol y dydd. Mae wedi bod yn bleser eu rheoli a'u hyfforddi dros yr ychydig wythnosau cyn y twrnamaint. Hefyd, diolch yn fawr iawn i'n cefnogwyr anhygoel. Fe awn amdani eto'r flwyddyn nesaf!

*Jimmy McNally*

Mae'n bleser gan Glwb Pêl-droed Llandyrnog gyhoeddi mai Sion Morris yw'r rheolwr newydd. Yn wyneb cyfarwydd yng Nghae Nant, mae Sion eisoes wedi bod yn gweithio'n galed i baratoi ar gyfer y tymor sydd i ddod. Bydd Neil Brown yn camu i fyny i fod yn rheolwr cynorthwyol. Mae Neil yn dangos angerdd mawr dros y clwb a phêl-droed ac yn edrych ymlaen at y newid yn ei rôl gyfer y tymor hwn. Bydd Adam Harvey, sydd wedi ymrwymo'n llwyr i'r clwb am y tymor sydd i ddod, hefyd yn gweithio fel chwaraewr/ hyfforddwr nes bod y clwb yn dod o hyd i aelod arall i ymuno â'r tîm hyfforddi.




*Rhes ôl, o'r chwith: Jimmy McNally, Heather Powell, Neisha Roberts, Erin Dunkerly, Pym Janpheng, Izzy Williams, Ethan Morris; Rhes flaen, o'r chwith: Shannon Newcombe, Sue Ward, Ellen Newcombe, Alisha Whitehead, Ruby Jones.*




Aeth dau dîm i'r twrnamaint i dimau dan 11 oed ddydd Sul, 29 Mehefin. Cyrhaeddodd Llandyrnog A y rownd gynderfynol gan golli o ddim ond 1-0 yn erbyn yr enillwyr yn y pen draw, Llanfair.

Pob dymuniad da i'r timau dan 16 yn nhwrnamaint yr Ysgolion Uwchradd ddydd Sul, 6 Gorffennaf yn Llanfair DC – ewch i'w cefnogi!

Gorffen yn chweched yn y tabl wnaeth Llandyrnog yng Nghynghrair yr Haf eleni, gan orffen trwy ennill yn y gêm olaf o 3-1 yn erbyn Llanfair DC. Llongyfarchiadau i Cefn ar ennill y Gynghrair.

# Crynodeb o'r materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Mehefin o Gyngor Cymuned Llandyrnog

- O ran troseddu, mae pedwar digwyddiad wedi'u reportio yn ystod y mis diwetha:
  - Polyn BT wedi'i daro i lawr
  - Ymosodiad
  - Ci wedi brathu rhywun. Yr achos wedi digwydd mewn cyfeiriad preifat
  - Ceisio defnyddio darn papur £50 ffug
- Adroddwyd bod gwaith ar y rhandiroedd yn mynd rhagddo, ond roedd problem o hyd i gael dŵr i'r safle. Mae'r gost yn ormodol ac felly mae'r Cyngor Sir yn chwilio am ffynonellau cyllid eraill i gwblhau'r prosiect.
- Ystyriwyd bod yr arosfannau bysiau mewn cyflwr derbyniol. Fodd bynnag, penderfynwyd cynnwys eu cynnal a'u cadw yn y cynllun busnes a chyllidebu.
- Mae coeden geirios wedi gwywo yng Nghae Nant ac mae'r trefniadau mewn llaw i'w thorri a'i chlirio yn fuan.
- Rhoddodd Dr Patricia Mckinnon-Day gyflwyniad ar ei chais cynllunio diweddar i wneud gwaith i ddarparu *gazebo*, sied a thŷ gwydr yn Old Coach House, Plas Bennett. Mae'r cais wedi'i gyflwyno.
- Penderfynwyd rhoi cymorth ariannol o £100 i Eisteddfod Llandyrnog.
- Adroddwyd bod gwaith wedi dechrau ar y datblygiad y tu ôl i Faes Llan. Roedd y gwaith ambell ddiwrnod wedi dechrau cyn 8 o'r gloch y bore – mae'r sefyllfa hon bellach yn cael ei monitro.
- Adroddwyd gan y Cynghorydd Parry, sydd hefyd yn gynghorydd sir, fod nifer y staff sy'n gweithio ar ffyrdd wedi gostwng o 19 i 7. Y disgwyl yw i'r saith gwmpasu Sir Ddinbych gyfan. Nid oes bwriad ar hyn o bryd i recriwtio, felly bydd hyn yn sicr o effeithio ar y materion cynnal a chadw sy'n ymateb i sefyllfaoedd, gan y bydd y Cyngor Sir yn canolbwyntio ar faterion cynnal a chadw sydd wedi'u cynllunio.
- Trefnodd y cyngor cymuned sgwrs ar sut i adnabod sgamiau ac osgoi cael eich twyllo ar-lein. Rhoddodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu David Jones gyflwyniad diddorol iawn a chododd ein hymwybyddiaeth o ba mor hawdd yw cael eich twyllo.
- Mae'r ymateb i'r holiadur am farn y gymuned wedi bod yn brin, ond cafwyd rhai ymatebion cadarnhaol.
- Penderfynwyd addurno'r Ystafelloedd Coco. Bydd yn anodd dod o hyd i bum diwrnod gwaith rhydd ond bydd y gwaith yn cael ei wneud.






*Argraffwyd gan Mike Neuman www.neumannprintersdenbigh.co.uk 01745 814067*